# Ruth



# Cyflwyniad

Yn y wers y wythnos hon, byddwn yn dysgu am Ruth oedd yn byw yn ystod amser y barnwyr. Mae ei stori i'w gael yn y llyfr Ruth. Rhai o'r prif bwyntiau byddwn yn archwilio yw --

- Mae Duw yn ein gwobrwyo pan rydym yn ymddiried Ynddo ac yn Ei ddilyn.
- Mae Duw yn ffyddlon.
- Mae Duw yn medru defnyddio sefyllfa anodd i fynd a ni i le gwell.
- Dylwn wasanaethu Duw yn dda yn y pethau bach.
- Mae gan Dduw Waredwr i ni.

## Cynllun y wers

Siaradwch am ystyr newyn. Eglurwch fod Naomi a'i theulu wedi gorfod teithio ffordd bell i ffeindio bwyd. Siaradwch am sut oeddent wedi mynd i wlad dramor oedd yn wahanol iawn i'w gwlad nhw a bod y bobl yno ddim yn addoli'r gwir Dduw. Wedyn siaradwch am sut oedd Ruth wedi dilyn Naomi yn ôl at bobl a gwlad Duw. Meddyliwch am ba mor anodd yr oedd i fyw mewn gwlad tramor.

Dewiswch wlad gyda'ch gilydd. (Troellwch glôb, edrychwch i fyny genhadon sy'n cael eu cefnogi gan eich eglwys a.y.b.) Ar ôl dewis y wlad, edrychwch am ychydig o luniau. Dewiswch rysáit o'r wlad yna, gwnewch y bwyd a'i fwyta gyda'ch gilydd. Trafodwch sut mae'r tai, coed, blodau a.y.b. yn wahanol. Wedyn pwyntiwch allan bod dim ots pa mor wahanol mae'r gwledydd, mae pobl dros y byd i gyd angen credu yn yr Arglwydd Iesu i gael eu hachub. Gwnewch ymrwymiad gyda'ch plentyn i weddïo am "eich" gwlad am wythnos neu mwy.

Siaradwch am fel oedd Ruth yn ffyddlon mewn pethau bach fel casglu'r grawn. Gofynnwch i'ch plentyn sut byddent yn "trwsio'r" wlad. Cafwch hwyl yn siarad am ffyrdd i wneud pobl yn hapus – fel rhoi bisged am ddim i bawb. Wedyn pwyntiwch allan, er nad ydym yn medru gwneud hyn i bawb yn y byd, gallwn wneud pethau bach fel rhoi bisgedi i gymdogion neu ffrindiau. Atgoffwch y plentyn am rhai o'r pethau maent yn ymdrechu i wneud (gwneud ei wely, clirio teganau a.y.b.) Siaradwch am sut eu bod angen bod yn ffyddlon yn gwneud y pethau yma cyn byddwch yn gadael iddynt wneud tasgau sydd gofyn am fwy o gyfrifoldeb.

Atgoffwch y plentyn bod Duw yn medru defnyddio cyfnodau anodd i fynd a ni i le gwell. Os yn bosib ewch am daith at fryn. Dringwch y bryn gyda'ch gilydd. Pwyntiwch allan fel mae'n teimlo fel petai'r llwybr yn hir neu'n serth. Pan gyrhaeddwch y copa, pwyntiwch allan pa mor bell gallwch weld a rhannwch ryw ddanteithfwyd arbennig gyda'ch gilydd wrth edrych ar yr olygfa. Eglurwch fel weithiau mae'r llwybr yn ymweld i fod yn anodd, ond mae'r wobr yn werth yr holl drafferth.

Meddyliwch am beth mae gwaredwr yn feddwl. Siaradwch am fel ydych yn "gwaredu" eitemau yn y siop groser pan rydych yn talu'r dal pryniant. Eglurwch mai'r Iesu yw'r Gwaredwr a ddaeth i'r byd i dalu'r dal pryniant drosom ni.

Gweddïwch gyda'ch gilydd a diolchwch i'r Iesu am fod yn waredwr a gofynnwch iddo achub y bobl trwy'r holl fyd.


© 2023 truewaykids.com




Priododd Ruth a Boaz a chawson nhw fab.

Bendithiodd Duw nhw a Naomi.

Roedd pawb yn hapus iawn a dywedon ddiolch i Dduw am beth roedd E wedi gwneud.




Roedd Ruth a Naomi yn byw mewn lle o’r enw Moab. Roedd Naomi yn

fam-yng-nghyfraith i Ruth.

Dywedodd Naomi ei bod yn mynd yn ôl i’w chartref ym Methlehem.

Dywedodd Ruth na fyddai byth yn gadael Naomi a byddai’n mynd gyda hi.

A dywedodd ,” Bydd dy bobl di yn bobl i mi, a dy Dduw di yn Dduw i mi.”



2

Pan gyrhaeddon ym Methlehem, roeddynt yn dlawd iawn.

Dywedodd Naomi wrth Ruth am fynd i'r cae i gasglu grawn ar ôl y gweithwyr.

Gweithiodd Ruth yn galed iawn trwy'r dydd.

Casglodd pob darn bach o fwyd gallai ffeindio.



3

Perchennog y cae oedd dyn o'r enw Boaz.

Helpodd Ruth.

Dywedodd wrth ei weithwyr am gwympo bwyd ychwanegol i Naomi.

Yn hwyrach, fe gwympon mewn cariad.

Roedd Boaz eisiau priodi Ruth, ond roedd yn rhaid iddo ofyn am ganiatâd i'w gwaredu.

# Chwaraeon a Gweithgareddau

## Bwyd dros ben

Eglurwch sut oedd Ruth yn chwilio'r caeau am unrhyw fwyd dros ben wedi cwympo gan y gweithwyr.

Edrychwch o gwmpas eich cegin am unrhyw fwyd dros ben, darnau bach wedi gadael mewn bocsys a.y.b. a cheisiwch wneud pryd o fwyd gyda'ch plentyn.





## Casglwch yn eich basged

Argraffwch rhai lluniau o wenith a chwympwch nhw/ cuddiwch nhw mewn ardal.

Dywedwch wrth eich plentyn am geisio casglu cymaint ohonynt ac y gall e ffeindio yn ei fasged.

Gallwch ddefnyddio'r fasged o'r grefft yr wythnos hon neu bowlen pob dydd.

## Talebau

Chwiliwch mewn papurau newydd neu gylchgronau lleol am dalebau a chwponau gyda'ch plentyn.

Pan ydych yn ffeindio rhai rydych yn hoffi, torrwch nhw allan gyda'ch gilydd yn barod i'w defnyddio.


Wrth i chi fynd i siop i'w defnyddio, gallwch siarad am yr angen iddynt gael eu gwaredu.



© 2023 truewaykids.com









© 2023 truewaykids.com

# Dwi'n byw mewn .......................



Rhowch gylch o gwmpas eich gwlad

Rydym yn hoffi bwyta





Mae ein baner yn
edrych fel hyn

© 2023 truewaykids.com


# Rr

Rr Rr Rr



Ruth

Lliwiwch y geiriau sy'n dechrau gyda R




© 2023 truewaykids.com


| | |
|---|---|
| Bydd | dy |
| Dduw | di yn |
| Dduw | i mi |

Torrwch allan y geiriau isod a gludwch nhw uwchben

| | |
|---|---|
| Dduw | Bydd |
| dy | i mi |
| Dduw | di yn |

© 2023 truewaykids.com

# Helpwch Naomi a Ruth deithio'n ol i Fethlehem




© 2023 truewaykids.com

# Gwnewch eich talebau eich hun

© 2023 truewaykids.com

# Basged plât papur


Basgedwaith hawdd. Defnyddiwch i siarad am Ruth yn casglu'r gwenith. Mae fideo gyda chyfarwyddiadau llawn i'w gael yn y rhestr.

## Pethau byddwch angen:


- 2 plât papur
- Glud (neu styffylau)
- Siswrn
- Paent
- Brwsh paent




## Beth i'w wneud:




Plygwch y plât papur i mewn i 4 i greu llinell ac i ffeindio canol y plât.



Tynnwch linell o gwmpas cwpan i greu cylch yng nghanol y plât. Tynnwch linellau at y cylch a thorrwch.



Gludwch neu stwffiwch y toriadau at ei gilydd i ffurfio bowlen. Os yn gludo, defnyddiwch glipiau papur i'w ddal yn ei le nes ei fod wedi sychu.



Torrwch yr ymyl o'r ail blât papur i greu dolen.



Gludwch neu stwffiwch yn ei le a gadewch i sychu.



Pan mae'r glud yn sych, addurnwch gyda phaent.

© 2023 truewaykids.com

# Basged Gwenith

Lliwiwch y fasged a'r gwenith.

Torrwch allan y gwenith a hanner cylch.

Gludwch yr hanner cylch i'r cefn o'r fasged i greu poced.


Rhowch du mewn i'r gwenith.




https://youtu.be/LZSztH24k5E



© 2023 truewaykids.com






© 2023 truewaykids.com



© 2023 truewaykids.com

© 2023 truewaykids.com



# Amser Addoli

Argymhellir caneuon addoli, heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids.  Fideos 'You Tube' i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.

My Redeemer lives

https://youtu.be/YZ5v6SKLZtg

God is so good

https://youtu.be/eg3bvbDVUTg

O Taste and See

https://youtu.be/FJdFKYZRxcM





# Amser Gweddi

Diolchwch i Dduw am y bobl mae E'n rhoi yn ein bywyd i'n helpu.

Diolchwch i Dduw am anfon yr Iesu i'n gwaredu i mewn I'w deulu Ef.

## Wythnos Nesaf:

### Hanna a Samuel

Os nad ydych wedi gwneud yn barod, cytunwch i dderbyn gwersi yn y dyfodol trwy e-bost.
truewaykids.com/subscribe/

© 2023 truewaykids.com